# SYLWADAU

AR

# BREGETH

YNGHYLCH

# "SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF A DONIAU GWYRTHIOL."

---

Awdwr a chyhoeddwr y bregeth uchod yw y Parch. David Evans, Curad Eglwys St. Dewi, Caerfyrddin; yr hwn a gafodd ei ddwyn i fyny yn Athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin, ac a fu yn bregethwr gyda'r Independiaid; ond wedi hyny bu yn fyfyriwr yn Ngholeg Llanbedr, ac yn awr y mae yn offeiriad cymmeradwy. Yr enw sydd wrth y bregeth yw yr uuig achos fy mod i yn meddwl gwneuthur sylwadau arni. Y mae y gwaith mawr ag sydd gan Capt. Jones i ofalu am oddeutu tair mil o Saint, yn rhwystr iddo wneuthur sylwadau ar bob peth a ddichon gael ei gyhoeddi yn erbyn ein crefydd; ond ryw fodd neu gilydd, dygwydda fynychaf fod y llyfrau a gyhoeddir yn erbyn y Saint, yn neillduol pregeth Mr. Evans, wedi eu hateb ganddo yn barod mewn gwahanol lyfrau. Yn awr, pe buasai ein gwrthwynebwyr mor gall a gonest â darllen ein llyfrau cyn cyhoeddi, arbedent lawer o drafferth iddynt eu hunain ac i ninnau; o herwydd gallent gael eu rhesymau hwy, ynghyd â'u hatebion ninnau, wedi eu cyhoeddi yn barod. Meddyliais wrth roddi fy chwech am y bregeth ddeg-dalen hon, fy mod yn prynu cynnyrch gwreiddiol, a hwnw yn deilwng o'r urdd offeiriadol; ond pan welais fod defnyddiau mwyaf neillduol y cynnyrch wedi bod yn mhenglog W. R. Davies, Dowlais (Bedyddiwr) a lliaws o hereticiaid ereill yn ngolwg yr Eglwys Lan, cefais fy siomi yn aruthrol.

Wedi rhag-ymadroddi gymmaint â hyna, deuaf yn fwy neillduol i sylwi ar gynnwysiad y bregeth. Y testun a ddewisodd ein pregethwr a welir yn Marc xvi, 17, 18, sef, "A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; ac â thafodau newyddion y llefarant; seirff a godant ymaith, ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant yn iach." Dyna eiriau Iesu Grist; a rhaid i'r nef a'r ddaear fyned heibio cyn y palla un gair o honynt. Da fyddai genyf pe gallwn ddweyd hyny am bregeth Mr. Evans: hwyrach, efallai, cyn y bydd i adolygydd annysgedig fel myfi fyned heibio iddi, a'r Beibl o fy mlaen, y bydd pob sill o honi wedi dianc rhag cywilydd. Dechreua ein cyfaill trwy ddweyd fod "llawer o gau-brophwydi yn cyfodi, gan ddywedyd am Grist, Wele y mae efe yn y diffaethwch—sef draw gyda'r Mormoniaid yn niffaethwch America; neu wele y mae efe yma yn yr ystafelloedd dirgel gyda ni, ac nid yn yr eglwysi a chapeli'r wlad;" ac yn nes yn mlaen yn ei bregeth, "rhybyddia y bobl yn iaith Crist, 'Nac ewch' (i'r anialwch, nac i benau'r heolydd, nac i'r ystafelloedd dirgel) 'ar eu hol, ac na chredwch hwynt.'" Pa le y dysgodd Mr. Evans hyn? A glywodd efe fod y Saint yn dweyd fod Iesu Grist yn awr yn niffaethwch America, neu mewn rhyw ystafelloedd dirgel yn y wlad hon? Beth, Mr. Evans? ai nid clywed a wnaethoch fod y "Princites," (y dynion a fu yn offeiriaid fel eich hunan, ac yn yr un coleg hefyd â chwi), yn dweyd fod Crist wedi dyfod, a'i fod yn awr mewn capel ganddynt hwy yn New Charlinch, gerllaw Bridgewater; yr hwn gapel a elwir ganddynt hwy yn

[PRIS CEINIOG.

"Ago Pamona"? (Gwel 'Millennial Star,' May 15, 1848.) Nid yw y Saint yn credu fod Crist wedi dyfod i ddifaethwch, nac ystafell, nac eglwys, na chapel, nac Ago Pomana ychwaith hyd yn hyn, ac na ddaw byth; ond credant y bydd iddo ddyfod ar gymmylau y nef, ac y bydd i bob llygad ei weled, ac na fydd dadleu wedi hyny mai i ddiffaethwch neu eglwys y daw, gan y profir y peth â thân fflamllyd, i'r rhai hyny "nad adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufyddhau i efengyl Iesu Grist." Nid rhyfedd i Mr. Evans ddweyd y fath ffolineb, o herwydd y mae mor anwybodus o'r Saint a'u crefydd, fel na ŵyr mai yr un bobl ydynt â'r Mormoniaid, ac mai nid yr un bobl yw canlynwyr Joseph Smith yn America, a'r Seintiau yn Nghymry. Er prawf o'r anwybodaeth hon, darllener y ddwy dudalen gyntaf o'i bregeth. Pa beth a all fod yn fwy ynfyd na gweled dyn yn myned i ddangos twyll pobl a'u crefydd, heb wybod braidd dim am y naill na'r llall? Dyna beth yw dyn dall yn ceisio dangos pwy sydd yn dywyll.

Yn mhellach, dywed Mr. Evans am y Saint fel hyn:—"Y mae y dynion hyn yn ymneillduo oddiwrtho eglwys Dduw, yn gystal ag oddiwrh holl grefyddolion ereill yr oes, ac fel hyn yn fath o Anghydffurfwyr dyblyg" (tud. 4). Pa eglwys, wyddys, yw "eglwys Dduw?" Os mai Eglwys Loegr, yna eglwysi y diafol yw eiddo "holl grefyddolion ereill yr oes;" ac y mae ymneillduad y Saint oddiwrthynt hwy, mor bell â hyny, yn dda; o herwydd y maent yn cilio oddiwrth y drwg. Y gwirionedd yw hyn;—os yw y Saint yn ymneillduo oddiwrth grefyddau yr oes hon, nid ydynt yn ymneillduo oddiwrth grefydd Crist a'i apostolion; ond am Eglwys Loegr y mae hi wedi ymneillduo oddiwrth Eglwys Rhufain, a holl grefyddolion ereill yr oes wedi ymneillduo oddiwrth Eglwys Loegr. Yn awr, os nad Eglwys Dduw oedd Eglwys Rhufain, yna nid oedd eglwys gan Dduw cyn i Eglwys Loegr fodoli: o ganlyniad, pwy bynag a ymneillduo oddiwrth Eglwys Loegr, y mae fel yr ethnig a'r publican. Yna, os yw y Saint wedi ymneillduo oddiwrth y byd, nis gallant fod wedi ymneillduo oddiwrth eglwys Dduw hefyd. Credaf mewn byd ac eglwys, ond dim purdan. Penderfyned Mr. Evans ynte, pa un ai oddiwrth y byd neu yr Eglwys y mae'r Saint wedi ymneillduo. Etto, meddai ein pregethwr, —"Credant eu bod yn wrthddrychau neillduol o ras ac ysbryd Duw, gwedi derbyn goleuni a doethineb o'r nefoedd, na ŵyr y *byd* yn gyffredin ddim am danynt, a bod pawb heb berthyn i'w cyfrinach hwynt 'yn anianol ac heb yr Ysbryd.'" Mae y dysgawdwr hwn mor ddaearol â Nicodemus. Mae y "byd" yn gwybod am ei holl oleuni a'i ddoethineb ef, wrth gwrs, cyn y rhyfedda am ddywediad y Saint; ac os nad yw efe yn derbyn o'r nefoedd, nac yn gwybod lawer fwy nâ'r byd, y mae "yn anianol ac heb yr Ysbryd." Er cymmaint o golegau sydd yn y wlad, y mae eisieu un yn rhagor—un at ddysgu synwyr cyffredin.

Yn nhud. 6, sylwa Mr. Evans ar yr addewid yn ei destun, fel hyn:—"Y mae'r Arglwydd yn addaw yma y byddai iddo ddwyn tystiolaeth i'r efengyl trwy wyrthiau; a'r addewid hon a gyflawnodd efe yn oes gyntaf yr eglwys." Yn awr, cyn y gallwn gredu fod yr addewid wedi ei chyflawni yr amser hwnw, y mae eisiau gwybod i ba fath ddynion y cafodd ei rhoddi; a rhydd Iesu Grist yr ateb hwn i ni—"A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a *gredant?*" Os ydym ni yn *credu* yr efengyl fel y dynion gynt, y mae'r addewid i ninnau; ac os na *chredwn*, a chymmeryd ein *bedyddio* fel y rhai hyny, yna nis gallwn fod yn *gadwedig* ychwaith. Hefyd, os ydym ni yn *credu* fel y rhai gynt, ac heb yr arwyddion yn ein canlyn, y mae yn rhaid fod Crist yn gelwyddog; neu ynte, os yw Crist yn eirwir, yna y mae Mr. Evans yn gelwyddog, o herwydd y mae efe yn dweyd eu bod wedi darfod. Efallai, pe byddai i ni edrych pa beth oedd dyben yr "arwyddion i ganlyn" y credinwyr, y caem allan pa un a oes eu heisieu yn awr ai peidio. Yr ydym yn cael fod bwrw allan gythreuliaid yn un peth; ac os oedd cythreuliaid yn rhyw rwystr i efengyl Crist y pryd hwnw, y maent felly etto, os ydynt yn meddiannu dynolryw yn awr, ac y mae eisieu eu

bwrw allan, wrth gwrs. Dywed Mr. Evans ar y pen hwn yn nhud. 18, "Ni welir yn awr y gallu gwyrthiol yn bwrw cythreuliaid ffyrnig o *gyrff* dynion; ond y mae cythreuliaid mor greulon ac atgas yn cael eu bwrw allan o *eneidiau* pechaduraid yn barhaus." Y mae *enaid* dyn yn ei gorff; ac os oes cythreuliaid yn cael eu bwrw o'r enaid, y maent wrth raid yn cael eu bwrw o'r corff: a chan fod "cythreuliaid *mor greulawn ac atgas*" yn aflonyddu dynion yn awr, y mae cymmaint o eisieu yr addewid yn bresennol ag erioed. Peth arall mewn addewid i'r credinwyr yw "*llefaru â thafodau dyeithr*:" ond beth allai fod dyben hyny, tybied? Caiff Mr. Evans ateb yn gyntaf:—"Y mae'r gallu i lefaru â thafodau dyeithr er argyhoeddi y *diffydd*" (gwel tud. 13). Ai y tafodau oedd y peth goreu gynt i argyhoeddi y diffydd? Os mai, paham nad tafodau fuasai y peth goreu etto? Ni allai y tafodau hyn ond argyhoeddi y diffydd yr amser hwnw: pa fodd yr argyhoeddir y diffydd yn ein hoes ni? Os oes ffordd newydd, y mae hyny yn ychwanegiad at yr ysgrythyr. Yn awr, caiff yr ysgrythyr ateb pa beth yw "llefaru â thafodau;" pwy a ŵyr na chyt-una y ddwy blaid. Dywedir yn 1 Cor. xiv, 2, fel hyn—"Yr hwn sydd yn llefaru â thafod dyeithr, nid wrth *ddynion* y mae yn llefaru, ond wrth *Dduw*; canys nid oes neb yn gwrandaw [*understand*]; er hyny yn yr Ysbryd y mae efe yn llefaru dirgeledigaethau." Os mai mewn ieithoedd dyeithr oedd yr apostolion yn pregethu, nid wrth "*bob creadur*" yr oeddynt yn llefaru, ond wrth *Dduw*, canys nid oeddynt hwy yn eu "*deall;*" a phe buasent yn eu deall, fel y gwyr bucheddol hyny ar ddydd y Pentecost, ni wnaent gredu, mwy nâ'r rhai hyny, o herwydd i Dduw ddweyd, "Trwy wefusau estronol y llefaraf wrth y bobl hyn, ac ni'm gwrandawant felly" (1 Cor. xiv, 21.) Hwyrach na ddywedent oll eu bod yn "llawn o win melys," neu "yn ynfydu." Cawd treial teg o'r tafodau er argyhoeddi ar y Pentecost; ond ni chredodd neb yno nes i Pedr bregethu ar ol hyny yn yr iaith gyffredinol (Act. ii, 14—40). Yr un fath dafodau a lefarwyd ar y Pentecost, ag yn Ephesus (Act. xix, 6); ond yn unig fod dynion yn dygwydd bod yn bresennol yn y lle blaenaf ag oedd yn deall yr ieithoedd, a dim yn yr olaf. Dyben y tafodau dyeithr i ganlyn y *rhai a gredant*, yw er adeiladu y personau a'u defnyddiant (1 Cor. xiv, 4), a thrwy eu cyfieithu, er adeiladu yr eglwys hefyd (adn. 5). Darllener y Testament oll, a phrofer i mi nad dyna eu dyben, ac nad oes eu heisieu etto i adeiladu y credinwyr. Os profa Mr. Evans fod yr apostolion wedi bod yn pregethu yr efengyl mewn tafodau dyeithr, yna fe brofaf finnau nad oedd neb yn eu "deall," os nad oeddynt yn "cyfieithu;" neu, os gwnai rhai eu deall, na wnaent eu credu. Y mae ein cyfaill yn benben â'r ysgrythyrau ar y pen hwn, beth bynag, nad sut y bydd ynghylch yr addewid nesaf. Yr addewid hono yw, "*Seirff a godant ymaith, ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed.*" Yn awr, beth allai fod dyben codi seirff ymaith? a pha un ai pan fyddai y seirff yn ymosod ar y credinwyr, neu y credinwyr arnynt hwy, y byddai y gallu i'w gorchfygu yn cael ei roddi? Os gwnawn ddarllen (yn Act. xxviii, 2—5) am y creadur gwenwynig hwnw a neidiodd allan o'r tân, ac o lynodd wrth law Paul, cawn ateb, feddyliwn, i'r ddau gwestiwn blaenorol. Etto, mewn perthynas i yfed gwenwyn heb dderbyn niwed; pa un ai er gwaredu y credinwyr rhag cynllwynion eu gelynion, neu er dangos arwyddion i'r byd, oedd dyben yr addewid? Pa un ai "*os* yfent" mewn anwybodaeth, yn gymmysg â'u diodydd, neu pan yfent mewn ufydd-dod i rywun a geisiai ganddynt, oedd meddwl ein Harglwydd? Barned y darllenydd drosto ei hun. Os oedd y credinwyr i gydio mewn seirff, neu yfed gwenwyn, ar archiad rhywun, buasai dyscyblion yr Iesu yn debycach i swynwyr na dim arall; a phe buasai plant Duw yn ufyddhau i blant y fall, trwy gydio mewn sarff neu yfed gwenwyn er eu mwyn, buasai yr un peth yn gymhwys â phe buasai i Iesu Grist droi y ceryg yn fara er mwyn Satan. Yn awr, gan mai parhad yr addewid sydd mewn dadl fwyaf, ac nid ei dyben, cawn glywed pa beth a ddywed rheswm. Os mai dyben pethau felly oedd er argyhoeddi y diffydd ynghylch yr efengyl, paham nad oes eisieu

y cyfryw yn yr oes hon, gan nad oes dim arall at hyny yn yr eglwys yn awr, nag oedd ar y cyntaf? Etto, os dadleuir mai dyben yr arwyddion gynt oedd er planu Cristionogaeth, a thrwy hyny nad oes eu heisieu yn awr; paham, ynte, gan fod Cristionogaeth mor newydd yn China a gwledydd ereill, nad oes yr un faint o eisieu arwyddion i ganlyn yno, er ei phlanu, yn y dyddiau hyn, ag oedd yn y dyddiau gynt? O'r ochr arall, os mai dyben yr arwyddion oedd llesoli ac amddiffyn y credinwyr gynt, yn ngwyneb gelyniaeth a chyfrwysdra teyrnas y tywyllwch; paham nad oes eu heisieu hefyd yn yr oes hon, i'r un dyben? Caiff y darllenydd etto farnu o du pwy y mae rheswm, a chaf finnau fyned yn y blaen at beth arall. Yr addewid olaf a roddodd ein Harglwydd i gredinwyr ei efengyl, yw a ganlyn:—"*Ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach.*" Y rheol oedd gan y credinwyr i weithredu wrthi, sydd i'w gweled yn Iago v, 14—16,—"A oes neb yn eich plith chwi yn glaf? galwed ato henuriaid yr eglwys; a gweddiant hwy drosto, gan ei eneinnio ef ag olew yn enw yr Arglwydd: a gweddi y ffydd a iachâ y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny [os na fydd ei amser i farw, wrth gwrs]. Cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd, a gweddiwch dros eich gilydd, fel y'ch *iachaer*. Llawer a ddichon *taer weddi* y cyfiawn." Nid wyf yn meddwl fod un meddyg yn y wlad na chyfaddefa mai addewid oedd hon er llesoli y credinwyr; canys llesoli y claf sydd ganddo ef ei hun mewn golwg wrth roddi meddyginiaeth: felly Duw, ond fod ei foddion a'i reolau ef i'r claf yn wahanol i eiddo y meddyg. Pwy a feddylia mai hoffi rhoi arwydd i'r byd oedd Duw, pan yn cyfranu iechyd i'w blant? neu fod Duw yn ewyllysio gwneyd credu yn beth rhwyddach trwy arwydd, nâ phregethu? Fe addefa pawb, efallai, os na chredir trwy *glywed* pregethu, na chredir hefyd ddim trwy *weled* marw wedi adgyfodi. Os felly, ynte, nid er argyhoeddi y diffydd y mae yr arwyddion, ond at lesoli y credinwyr; canys yr efengyl yw yr offeryn mwyaf effeithiol a diogel er argyhoeddi, o herwydd wrth ymddibynu ar arwyddion, gellir ein hudo gan swynwyr, &c. Os mae rhywbeth etto er sefydlu Cristionogaeth oedd yr iachâu hyn, paham na fuasai yn bod ynte yn y gwledydd lle y dywedir y sefydlir Cristionogaeth yn ein hoes ni? "Pa fodd," fel y dywed Mr. Evans yn nhud. 7, y mae "yn bosibl i ddadymchwelyd aml-dduwiaeth a phaganiaeth y byd, trwy bregethiad y groes, heb wyrthiau?" Wel, paham na welai efe fod cymmaint o eisieu gwyrthiau ac arwyddion yn awr ar y gwledydd tramor, yngbyd â llawer o anffyddiaid yn y wlad hon, ag yn y dyddiau gynt? Ond, o'r ochr arall, os mai dyben yr arwyddion oedd llesoli y credinwyr, trwy eu hiachâu, &c.; paham nad felly etto, gan fod yr un anghen? Paham na "ddichon taer weddi y cyfiawn" lwyddo gyda Duw yn yr oes hon, i gael iechyd, yn gystal â rhywbeth arall? A ellir dim cael "beth bynag" a ofynir yn enw Iesu Grist yn awr? Os gellir, mae yr arwyddion yn canlyn. Ac os methwn gael iechyd, neu rywbeth arall, holwn ein hunain pa un a oes "camweddau" neu ddiffyg ffydd yn rhwystr i hyny; ac os bydd pethau felly, cyffeswn bawb i'n gilydd, a gweddiwn dros ein gilydd; canys nid yw methiad neu ddau yn un prawf nad yw Duw yn gwrandaw ar ei blant. Cofiwn fod yn yr eglwys gynt "lawer yn weiniaid ac yn llesg, a llawer yn huno" (1 Cor. xi, 39), o herwydd troseddiadau; ac fe ddylem ni wneyd *allowance* gyferbyn â phethau felly yn yr oes hon, cyn condemnio gweddi am fethiant neu ddau. Hefyd, dylem gadw yn ein cof am Timotheus â'i fynych wendid, a Trophimus, druan, yn glaf yn Miletum, heb un o honynt, am a wyddom ni, wedi troseddu. Mae ffyrdd Duw weithiau tu hwnt i ddeall ei blant; ac am hyny, cymmerwn ef ar ei air bob amser, gan gredu y cyflawna bob peth a fyddo er ein lles.

Yn awr, Mr. Evans, dyna fi wedi bod yn siarad llawer ynghylch yr arwyddion, ac wedi profi eu bod mewn addewid i gredinwyr efengyl Iesu Grist, ac hefyd wedi dangos fy rhesymau dros eu parhad. Bellach y mae eisieu cael gwybod pa fodd oedd yr Arglwydd yn cydweithio â'i weision, a pha un a ydyw yn cydweithio yn awr? Atebir yr olaf yn nhud. 17 o'r bregeth fel hyn:—

"Y mae yr Arglwydd etto yn gweithio trwy a chyda ei efengyl;" a dywed hefyd, ond heb un prawf, "Yn awr *troedigaeth*, ac nid *gwyrthiau*, yw'r prawf arosol o'r dylanwadau dwyfol yn eglwys Crist." Beth dâl haeriad fel yna? Mae yn well genyf fi gredu yr haeriad yn yr ysgrythyr, yn yr adnod olaf o Marc; sef, "A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant yn mhob man, a'r Arglwydd yn *cydweithio*, ac yn cadarnhau y gair, trwy *arwyddion* y rhai oedd yn canlyn." Ble mae y prawf o fod Duw wedi newid ei ddull o weithio? Nid yw y diffyg o'r arwyddion yn Eglwys Loegr, a chapeli'r wlad, yn brawf yn y byd; o herwydd rhaid profi yn gyntaf eu bod hwy yn gredinwyr. Cawn sylwi ar hyn yn nes yn mlaen. Y mae Mr. Evans, yn nhud. 13, yn dyfod â phrawf ysgrythyrol, yn ei dyb ef, i brofi fod yr arwyddion wedi darfod. Wrth wneuthur hyny, y mae efe, fel llawer o'i flaen, yn anwybodus, yn cyfeirio at eiriau yn yr ysgrythyr ag sydd yn profi eu parhad. Y geiriau a welir yn 1 Cor. xiii, 8, ac fel hyn y maent:—"Cariad byth ni chwymp ymaith: eithr pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflana." Heb ddarllen mwy nâ hyna, y mae yn brawf gweddol iawn; ond etto nid yw yn hysbysu pa bryd yr oeddynt i ddarfod. O ran dim a ddywedir i'r gwrthwyneb, gallant fod heb ddarfod etto. Ond y peth ag ef yw, y mae Mr. Evans yn ddiogel yn magl Paul: rhyfedd gymmaint o adar duon mae hon yn ddala. Yn awr, y mae yr apostol yn dweyd mwy nag sydd yn yr adnod uchod: y mae'r nawfed a'r ddegfed yn egluro y mater. Dywed yno, "Canys *o ran* y gwyddom, ac *o ran* yr ydym yn prophwydo: eithr pan ddelo yr hyn sydd *berffaith*, yna [nid cyn hyny] yr hyn sydd *o ran* a ddileir." Os nad yw yr hyn sydd berffaith wedi dod, yna mae llefaru â thafodau, prophwydo, gwybodaeth, &c., i fod yn yr eglwys. Y mae yr eglwys i fwynhau y pethau bachgenaidd—i "lefaru," deall, a meddwl yn fachgenaidd, hyd nes y delo yn "wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist," pan y rhydd heibio bethau bachgenaidd, ac yn lle edrych trwy ddrych mewn dammeg, i weled wyneb yn wyneb, ac yn lle adnabod o ran, i adnabod megys ei hadweinir. (1 Cor. xiii, 11, 12; Eph. iv, 13.) Yn awr, bydd o werth i Mr. Evans, i geisio profi fod yr hyn sydd *berffaith* wedi dyfod: yna gall ddweyd fod yr arwyddion wedi darfod. Ymdrechaf wneyd hyny drosto, fel hyn:—Gellir golygu fod yr hyn sydd *berffaith* wedi dyfod, trwy fod yr ysgrythyrau santaidd wedi eu gorphen, ac fod genym reol ddigonol i grefydda wrthi, ac nad oes eisieu dim yn ychwaneg. Ond odid nad ystyria Mr. Evans hyna yn reswm da; o leiaf, os nad ystyria efe hyny, y mae digon a'i gwna; canys nid dywediad o'm heiddo i ydyw, ond cawr o elyn i'r Saint. I'm cynnorthwyo yn hyn o orchwyl, dyfynaf eiriau Mr. Evans yn nhud. 14—"Os ydyw ysgrythyrau santaidd yr Hen a'r Newydd Destamentau yn ddigonol reol i'n ffydd a'n hymarferiad, ofnwn syrthio dan farn Duw trwy honi hawl i ryw ddadguddiad newydd o'i ewyllys, megys y gwna dynion yn y dyddiau hyn, 'Canys yr wyf yn tystiolaethu i bob un sydd yn clywed geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, Os rhydd neb ddim at y pethau hyn, Duw a rydd ato ef y pläau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn,' &c.—Dad. xxii, 18." Yn awr, dyna glo ar y cyfan; na all neb ei agor ond y sawl sydd â'r allwedd. Ond gadewch i ni ei dreio, beth bynag, heb un agoriad. Pa beth yw "geiriau prophwydoliaeth y *llyfr hwn*?" Dadguddiad Ioan yw yr unig lyfr prophwydoliaethol o'r Testament Newydd; o ganlyniad, ychwanegu at, neu dynu ymaith oddiwrth y Dadguddiad, yw yr hyn a waherddir. Ceir gwaharddiad cyffelyb yn Diar. xxx, 5, 6, a lleoedd ereill; ond ychwanegwyd y Testament Newydd wedi hyny. Nid yw gwaharddiad i *ddyn* ychwanegu, ddim yn rhwystr i Dduw ychwanegu. Gair Duw yw y Dadguddiad, ac nid gair dyn; ac o herwydd hyny, Duw yn unig sydd i ychwanegu, neu dynu ymaith. Wedi bod Ioan ar ynys Patmos, y casglwyd yr ysgrythyrau at eu gilydd, gymmaint ag a gasglwyd, oblegid y mae llawer yn eisieu. (Gwel 1 Cor. v, 9; Judas 3, 14; Luc i, 1, 2, &c.) Mae yr hyn a ddywed yr angel wrth Ioan (Dad. xxii, 10), sef, "Na

selia eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn," yn profi yn amlwg mai y Dadguddiad yn unig oedd yn feddwl; o herwydd yr oedd y llyfrau ereill o'r ddau Destament wedi eu gwneyd yn hysbys i'r eglwysi cyn erioed i'r angel roddi y gwaharddiad dan sylw, os credir mai y Dadguddiad yw y llyfr diweddaf a ysgrifenwyd. O'r ochr arall, os nad Ioan oedd y diweddaf, yna y mae rhywrai wedi ychwanegu yn groes i'r gwaharddiad. Ond, dyna ddigon, ond odid, ar hyna. Cawn ddweyd gair, ynte, ar yr hyn sydd *berffaith*. Os mai crynhoad o'r hyn a wyddai ac a ysgrifenai Paul ac ereill "o ran," yw'r hyn sy "berffaith;" yna, yn ol yr un resymeg, gallai llawer o anmherffeithderau gyfansoddi perffeithrwydd! Pob peth a wyddai Paul ac ereill, "o ran" yr oeddynt yn gwybod; ac os yw casgliad mewn llyfr o'r hyn a ddarfu iddynt hwy ysgrifenu, yn gwneyd yr hyn sydd "berffaith," yna dylem ni wybod a phrophwydo yn well nâ hwy, o herwydd fod yr hyn sydd berffaith genym ni. Yn wir, pe buasai crefyddolion yr oes hon yn gwybod o ran, cawsent wybod rhywbeth gan Dduw, er terfynu eu dadleuon anorphen; ond trwy eu bod yn honi fod yr hyn sydd berffaith ganddynt, y mae Duw yn ddisylw o honynt, ac felly y bydd hyd nes y dysgont y wers nad ydynt yn gwybod dim. Yn awr, wedi olrhain cymmaint, mentrwn haeru gyda Iesu Grist fod yr arwyddion i ganlyn y rhai a gredant, tra byddo ei efengyl yn cael ei phregethu; a dywedwn gyda Phaul, y bydd y prophwydo a'r llefaru â thafodau o ran, i barhau hyd nes delo y perffeithrwydd hwnw pan y cawn weled wyneb yn wyneb.

Y mae ein cyfaill Mr. Evans, yn nhud. 11, yn ceisio ein hargyhoeddi, fod yr arwyddion wedi darfod, trwy wneuthur y sylwadau canlynol:—"A raid i ni gredu nad oes ffydd gadwedigol gwedi bod yn y byd er ys mwy na phymtheg cant o flynyddoedd, gan nad oes gwyrthiau gwedi eu cyflawni gan broffeswyr crefydd Crist yn yspaid yr amser hwnw? A gollfarnwyd yr holl fyd dros gymmaint o amser? A syrthiodd y dynion ymdrechgar a defnyddiol a lafuriasant gymmaint yn enw yr Iesu yn y canrifoedd hyny i golledigaeth dragywyddol! Na ato Duw i ni dynu casgliad mor ddychrynllyd! Ac etto, os rhaid ystyried y geiriau yn yr ystyr eang y mae'r Saint yn eu cymmeryd, dyma'r *unig gasgliad* sydd i'w dynu oddiwrth ddiffyg y ffydd wyrthiol yn yr eglwys." Dyna hi yn ardderchog, o'r diwedd; canys y mae Mr. Evans wedi profi naill ai fod yr arwyddion wedi peidio, neu ynte fod yr holl grefyddwyr a fu oddiar ddyddiau yr apostolion wedi myned i "golledigaeth dragwyddol." Ond, gan bwyll; o herwydd "hyn yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy nâ'r goleuni." A ydyw Duw yn myned i gondemnio dynion am wrthod y goleuni, pan na chawsant gynnyg arno? Ai tybied yr â y paganiaid sydd heb erioed wedi clywed yr efengyl, i'r trueni? A ymddygai Duw trugarog yn y modd hyny? Na, "y neb ni *chredo*," meddai efe, "a gondemnir," ac nid y rhai na chawsent gyfleusdra i hyny. Y mae pawb, debygwn i, i gael eu barnu yn ol eu gweithredoedd, ac yn ol eu manteision. Credaf y bydd i'r "dynion ymdrechgar a defnyddiol a lafuriasant gymmaint yn enw'r Iesu yn y canrifoedd hyny," gael eu gwobrwyo gan Dduw am bob daioni. Ond y pwnc ag ef yw, a oeddynt hwy wedi ufyddhau i efengyl Iesu Grist, wedi eu "bedyddio er maddeuant pechodau" gan weision awdurdodedig Duw, ac wedi derbyn yr Ysbryd Glân hwnw ag sydd yn "dwyn ar gof y pethau sydd wedi myned heibio, ac yn mynegi pethau i ddyfod," ac hefyd sydd mewn addewid i "bawb yn mhell" (Act. ii, 39)? Ac a oedd Duw trwyddynt yn "cadarnhau ei air trwy yr arwyddion oedd i ganlyn? Os na ellir ateb yn gadarnhaol, yna nid yw yn debyg eu bod wedi derbyn yr efengyl, yr hon ni ddelai atynt "mewn gair yn unig, ond mewn *sicrwydd mawr*, ac yn yr ysbryd Glan." Yr arwyddion, ynghyd â ffrwythau yr Ysbryd, oedd y nodau ar ddyscyblion Crist yn y dechreuad; a pha fodd y gellir eu hadwaen ar ol yr amser hwnw, ond trwy yr un nodau? Ai wrth fod "heb yr Ysbryd ganddynt," ac yn meddu llawer o ddoethineb ddynol, y mae eu hadnabod? Ai o herwydd eu bod "yn gwahardd llefaru â thafodau," neu "ddirmygu prophwydoliaeth,"

neu ynte "efengylu yn amgen nâ'r hyn a efengylodd" Paul, y mae i ni eu hadnabod? Hysbyser i mi, allan o'r ysgrythyrau, mai nid yr un nodau ddylai fod ar y credinwyr yn yr oes hon, ag yn yr oes hono. Ni fwriadodd Duw gadarnhau gair y Pabyddion, nac ychwaith y rhai a ddidolodd oddiwrthynt, â'r "arwyddion," ond yn unig ei air ei hunan; ac o ganlyniad nid oedd yn syndod yn y byd nad oedd yr arwyddion yn y wlad hon pan oedd Pabyddiaeth yn ei gorchuddio, ac nid yw yn syndod etto, pan na welir braidd ond cangenau deilliedig o Babyddiaeth yn llanw ein tir. Mae "dirgelwch yr anwiredd" a welodd Paul yn dechreu gweithio yn ei amser ef (2 Thes. ii), yn sicr o fod yn ei lawn waith yn ein dyddiau ni, ac wedi achosi "*ymadawiad*" ganrifoedd yn ol; ond ni cheir gwared o'r cyfryw "Anwir," nes y bydd i'r Arglwydd ei ddyfetha "ag ysbryd ei enau, a'i ddileu â dyscleirdeb ei ddyfodiad." Pob un y pryd hwnw ag na fydd yn *adwaen* Duw, ac wedi ufyddhau i efengyl Iesu Grist, yr hon a adferwyd gan angel o'r nefoedd, efe a ddyfethir "â than fflamllyd." Nid crefyddau a elwir wrth enwau dynion a wna y tro y pryd hwnw, ond efengyl yn dwyn *adnabyddiaeth* o Dduw, fel yr efengyl a broffesa Saint y Dyddiau Diweddaf, neu yr un a broffesid gan yr apostolion. Fe wna Duw ddarparu cyfiawnder ar gyfer y rhai sydd wedi marw heb glywed yr "efengyl dragwyddol," a bydd iddo ddarparu barn ar gyfer y rhai sydd yn ei chlywed, ac yn peidio ei chredu? Yr oedd y pregethwyr doniol yn y blynyddau diweddaf yn gymmaint o weision i Dduw, ag a fyddai rhyw ddynion yn weision i'r Frenines, y rhai a feddylient eu hunain yn hedd-geidwaid, ac yn gwneuthur llawer o les, pan heb eu danfon erioed ganddi hi. Mae eisieu cymmaint o awdurdod oddiwrth Dduw i weinyddu yn ei gyfreithiau, ag sydd eisieu oddiwrth Victoria er gweinyddu yn ei chyfreithiau hi. Nid yw Duw yn "galw ato," ond trwy ei weision, ac nid all y rhai hyny alw drosto, heb dderbyn *dadguddiad* o'i ewyllys. Gweision heb *ddadguddiad* oedd "y dynion ymdrechgar a defnyddiol a lafuriasant gymmaint yn enw yr Iesu yn y canrifoedd" diweddaf, a gweision hefyd, wrth gwrs, heb awdurdod i weinyddu. Un felly yn gymhwys yw Mr. Evans, yn ol ei addefiad ei hun; canys ni all hòni un awdurdod ond a ddeilliodd o Babyddiaeth. Os gall, profed hyny. Yn awr, fe welir nad yw y rhai a fuont feirw yn golledig, am beidio credu yr hyn ni chlywsant; ac nad oes un rheswm i brofi na chanlyna yr "arwyddion" y rhai a *gredant* yr un efengyl â chynt.

Bellach, er mwyn diweddu, cymmysgaf y gweddillion a welaf o resymau Mr. Evans, yn un pentwr, a drylliaf hwynt gyda'u gilydd. Dywed yn nhud. 17, mai "nid trwy weithredu gwyrthiau y mae ail-enedigaeth:" nage, wrth gwrs, ond trwy gael ein "geni o ddwfr ac o'r Ysbryd." Etto, yn nhud. 9, meddai, "Yr oedd yr apostolion yn apelio at ysgrythyrau yr Hen Destament am gadarnhad i'r athrawiaethau oeddynt hwy yn bregethu." Felly yr apelia y Saint at y Testament Newydd, ac nid at esboniadau a thraddodiadau yr oes oleu-dywyll hon; ond pwy ddaw allan i'r maes i'w profi, wyneb yn wyneb? Dywed Mr. Evans beth fel hyn hefyd:—"Gan mai rhyfeddodau yw gwyrthiau, byddai'r dygwyddiad o honynt bob dydd yn dileu'r effaith a fwriadwyd iddynt gael." Wel, gan nad oes un wedi dygwydd er ys llawer o filoedd o ddyddiau, efallai y gellid cyflawni rhai yn bresennol heb ddileu yr effaith. A chan fod ein parchedig gyfaill yn gwaeddi, yn nhud. 15, "Dangoser y byddariaid, pyrth-clybod y rhai a agorwyd trwy allu y Saint? Pwy o honynt a ddattododd linynau tafod y mudan, nes peri iddo lefaru clodydd Duw?"—yr ydym yn ateb y gall Mr. Evans gael gweled person a ddaeth i glywed a llefaru —ïe, llefaru clodydd Duw, ar ol cael ei fedyddio gan y Saint, a hyny yn ddiweddar, ac hefyd yn Nghymru. Os oes rhywun am gael prawf, aed i'r Casnewydd, a gofyned am y dyn, sef Robert Brinkworth, yn nhŷ Mr. Nash, gwneuthurwr basgedi, yn Heol-y-Farchnad; a darllened yr hyn a gyhoeddodd golygydd y papyr newydd yno, sef y *Merlin*, yn un o rifynau mis Medi, 1848. Y mae pawb yn cyfaddef yno iddo fod yn fud a byddar, a'i fod yn llefaru a

chlywed yn awr ; ond pwy a ddywed mai "bys Duw" oedd hyny, ond y sawl a gredant ei air. (Gwel ragor yn y PROPHWYD am Dachwedd, 1848.) Etto, dyweda Mr. Evans, "Ac os yw rhai o honynt, fel Irving, yn meddwl fod ganddynt ddawn yr Ysbryd i lefaru â thafodau na ddysgasant erioed, dangoser ganddynt pwy iaith ydyw, a pha ddynion ar y ddaear sydd yn ei siarad." Deued efe i'r eglwys i gael gweled, o herwydd yn yr eglwys y mae'r gorchymyn i arfer y doniau ysbrydol; ond na ddeued yno yn "ddigred," neu "annysgedig," onide dyweda mai ynfydu y maent, pan yn llefaru rhyw iaith a siaredir gan ddynion. Pe cawsai ein cyfaill arwydd da, credu yr wyf y gadawai yr Eglwys yn y fan, er ei fod yn dweyd nad oes arwyddion yn bod. Y mae crefyddwyr ein gwlad o'r bron yn ceisio arwydd, ond arwydd nis rhoddir iddynt gan Dduw; eithr efallai y tosturia y gau-brophwyd wrthynt pan ddelo, ac y tyna dân o'r nef yn eu gwydd, i'w boddloni, a'u hargyhoeddi oll o effeithioldeb ei grefydd. (Dad. xiii, 13.) "Dysgwyliwch ronyn bach trwy ffydd," canys daw y bwystfil ar ein gwarthaf o flaen dyfodiad Iesu Grist.

Yn awr, wedi bod mor faith, dystawaf gyda dweyd, Os myn neb wybod fod eglwys Iesu Grist ar y ddaear yn awr, ac fod Duw wedi gosod ynddi, "yn gyntaf apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna gwyrthiau ; wedi hyny doniau i iachâu, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywiogaethau tafodau," &c. (1 Cor. xii, 28)—os myn neb wybod hyny, meddaf, gwneled ewyllys Duw, "ac efe a gaiff WYBOD am y ddysgeidiaeth."

PA'M na chredwch ein tystiolaeth ?
  Pa'm na phrofwch bob-peth sydd ?
Pa'm na fynwch gael goleuni,
  Tra mae 'nawr yn oleu ddydd ?
Pa'm na charech feddu sicrwydd,
  Yn lle gobaith gwan a chred ?
Pa'm na chydiwch yn y sylwedd,
  Yn lle'r cysgod diddym rcd ?

Pa'm na hoffech gael y doniau—
  Dawn i bawb fel myno Duw ?
Pa'm na chredech 'nawr mewn gwyrthiau,
  Tra mae'r Hwn a'u gwnaeth yn fyw ?
Pa'm na charech ddawn i wella,
  A mynegi peth i ddod,
A llefaru mewn tafodiaith,
  Tra mae'r hyn "o ran" mewn bod ?

Pa'm y credwch "rith duwioldeb,"
  A chan wadu'n llwyr ei "grym ?"
Pa'm y dysgwch chwi bob amser,
  Tra nas gellwch wybod dim ?
Pa'm na roddwch lwyr ufydd-dod
  I holl eiriau Brenin nef,
Fel y caffoch wir wybodaeth,
  Trwy ddadguddiad, ganddo Ef?

*Caerfyrddin.* J. DAVIS.

ARGRAFFWYD GAN J. DAVIS, CAERFYRDDIN.